

Cystadleuaeth 373 – Barddoniaeth Bl 12 a 13

Camlas / Afon

Beirniad – Elin Williams

Rwy'n trafod y cerddi yn y drefn y derbyniais i nhw.

373/1 Benallt

Mae'r gerdd yn dechrau'n addawol. Yr afon fan hon yw cefnogwyr rygbi ar ddiwrnod gêm ryngwladol – 'balchder a lifa trwy gerrynt y Taf'. Rhain yw'r Cymry wyth deg munud. Ond mae Benallt yn cymysgu delweddau ac mae'r ystyr yn niwlog mewn ambell ymadrodd. Mae angen cysoni amserau berfau hefyd – mae'n cymysgu'r presennol a'r amherffaith. Rhoddodd yr awdur gynnig yma ar ysgrifennu soned. Cofier, os mynd am y mesur hwn, bod angen i eiriau acennog odli gyda geiriau acennog a geiriau diacen odli gyda geiriau diacen (e.e. nid yw 'gyntaf' a 'glaf' neu 'awr' a 'bersawr' yn odli yma). Hefyd, mae angen rhoi sylw i rhythm y llinellau gan nad nifer y sillafau sy'n bwysig mewn llinell o soned ond yn hytrach, yr acenion, sef 5 fel arfer.

373/2 Cawlach

Cerdd fach ddymunol a thelynegol ar fydr ac odl sy'n disgrifio taith yr afon o'r tarddiad i'r môr. Yn sicr, mae'n rhedeg yn llyfn ac ystwyth. Ond roeddwn i'n chwilio am fwy o wreiddioldeb a fflach mewn cystadleuaeth fel hon.

373/3 Harding

Mae Harding yn amlwg yn feddyliwr dwys sydd wedi cyflwyno cerdd dywyll iawn – tywyll o ran teimladau a naws ond hefyd o ran eglurder. Mae'n dechrau'n syml ac effeithiol: 'Ar hyd fy oes i gyd/ o'r nant i ben draw'r byd/ fe fyddi di yno o hyd'. Yr awgrym yn y gerdd yw ei fod yn cyfeirio at ei fam. Ond wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen, mae'n mynd yn fwy a mwy amwys gan glymu geiriau a delweddau at ei gilydd heb lawn sylweddoli'r angen i ni'r darllenwyr ddilyn llif ei feddyliau. Byddai'r gerdd ar ei hennill petai Harding yn treulio amser yn dethol geiriau'n ofalus ac yn cadw pethau'n syml – torri'r gerdd i'w hanner efallai. O docio, mae addewid yma. Dydy pob llinell ddim yn llifo ac mae angen talu sylw i rythmau llinellau.

373/4 Blodeuwedd

Yma, fel yn sawl un o'r cerddi eraill yn y gystadleuaeth, defnyddir yr afon fel trosiad o daith haniaethol gan ddechrau yn y tarddiad a gorffen yn yr aber. Mae'n dechrau'n afaelgar – 'Tarddiad y gwenwyn yw tarddiad y llif' gan ddangos ei fod yn gallu defnyddio geiriau'n fedrus. Mae yma ymdrech i odli fesul cwpled ond nid yw'n gyson ac mae'r odli'n llafurus wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen. Hefyd, mae angen cysoni'r mydr a thalu sylw gofalus i rythmau llinellau. Aneled at gadw pethau'n syml gan gadw at eirfa naturiol.

373/5 Adda

Mae'r bardd fan hyn yn defnyddio afon i gyfleu gwastraff rhyfel gan sôn am y 'llif o goch' wedi i gymaint o lanciau gael eu lladd a'r 'llifogydd o ddagrau/ a gwacter ym mhob pentre'. Mae'r syniad yn un derbyniol iawn. Yn anffodus, mae nifer fawr o linellau Adda'n herciog e.e. yn y pennill cyntaf, ac mae geiriau'n cael eu pentyrru heb fod digon o feddwl wedi ei roi i ddethol y geiriau mwyaf effeithiol. Byddai'r gerdd ar ei helw o gadw at eirfa a chystrawennau naturiol.

373/6 Penfelen 2

Cerdd a gafodd ei hysgogi gan farwolaeth bachgen ifanc a foddodd wedi noson allan yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd sydd gan Penfelen 2. Does dim amau didwylledd yr awdur a'r ffaith ei fod wedi ei gyffwrdd gan y digwyddiad. Mae'r dweud yn uniongyrchol ac ar brydiau'n ein anesmwytho. Mae'n cloi'n effeithiol trwy ddweud bod 'gwely'r afon yn wely angau/ a'r dŵr eto wedi'i wenwyno â gwaed/ yr ifanc.' Ond yn gyffredinol, mae lle i fwy o gynildeb ac awgrymu yma.

373/7 Blodyn yr haul

Dyma gerdd arall a ysgogwyd gan farwolaeth Ifan, y bachgen ifanc a foddodd wedi noson allan yn ystod wythnos y Sioe Fawr. Mae'r trywydd a ddilynodd yr ymgeisydd hwn yn addawol dros ben – syniad gorau'r gystadleuaeth. Mae'n sôn am ei ddiymadferthedd a'i fethiant i wneud rhywbeth i helpu er cymaint mae'n dymuno gwneud hynny. Mae'n ysgrifennu nodyn mewn potel a'i ollwng i'r afon – 'Geiriau fy noddfa.

Nodyn mewn potel,
a'r geiriau'n dynn, dynn
o fewn coflaid y gwydr.'

Yn sicr, mae yma rannau sy'n codi i dir uchel ond nid yw'r safon yn gyson ac yn anffodus, ceir sawl enghraifft o gamddefnyddio geirfa sy'n amharu ar y gerdd fel cyfanwaith.

373/8 Hiraethog

Mae'r gerdd yn ymateb i drychineb tŵr Grefell yn llosgi. Ni theimlaf bod y ddelwedd o afon yn addas i gyfleu tân ac nid yw'n argyhoeddi felly. Mae Hiraethog yn pregethu mewn sawl rhan o'r gerdd yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Cofier bod delwedd yn gallu bod yn fwy effeithiol na brawddegau cyhuddgar. Wedi dweud hyn, mae yma ambell gyffyrddiad sy'n dangos bod yr awdur yn gallu 'gweld' pethau mewn ffordd ddiddorol e.e. hoffais y ddelwedd yn cyfleu'r hyn a ddigwyddodd 'fel tatŵ oesol ar yr ymennydd'. Mae angen mireinio mynegiant a cheisio cadw at eirfa naturiol.

373/9 Clwyd

Cerdd sy'n defnyddio'r môr fel trosiad am fywyd ond ni chynigir llawer sy'n newydd a gwreiddiol. Mae yma rai delweddau nad ydynt yn taro deuddeg e.e. y tarddiad fel 'blaguryn'. Yn anffodus, nid yw'r gerdd yn llifo ac mae'r arddull yn rhyddieithol. Mae tuedd yma i ddweud yn blaen yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Byddai'r bardd wedi elwa o sôn am afon neu brofiad penodol yn hytrach na mynd ar ôl syniadau haniaethol.

373/10 Rosie

Mae'r bardd yn sôn am afon amhenodol ac yn mynd ati i geisio gweld cysylltiadau rhyngddi â bywyd. Braidd yn arwynebol yw hon. Mae angen talu sylw gofalus i rythmau llinellau.

373/11 Mabli

Mae'r bardd yn taflu gofidiau ac atgofion i'r afon yn y gerdd hon. Mae yma gyffyrddiadau addawol ond nid yw pob gair ac ymadrodd yn ennill ei le ac mae fel petai rhywbeth ar goll mewn ambell ymadrodd. Mae yma ymgais at gyflwyno rhannau ar fydr ac odl ac mae rhannau eraill yn ryddieithol sy'n golygu nad yw'r gerdd yn llifo fel y gallai wneud.

373/12 Blodyn melyn

Cerdd am lygru afonydd. Mae nifer fawr o wallau iaith elfennol ac esgeulus yma.

373/13 Cilmeri

Mae'r afon yn y gerdd hon yn adlewyrchu cyflwr y bardd a'r meddyliau cymhleth (a thywyll ar brydiau) sy'n ymddangos, cilio ac ailymddangos yn ei ben. Mae'n sôn am 'unigedd a gwacter yr afon'. Mae yma duedd i athronyddu heb i'r ystyr fod yn eglur i'r darlennydd. Byddai tocio ar yr ansoddeiriau a'r geiriau amlsillafog gan geisio cadw at eirfa naturiol yn golygu y byddai'n cyfathrebu'n well.

373/ 14 Branwen

Mae ymdrech yma i bersonoli'r afon wrth sôn am ei gallu i 'greu bywyd yn ogystal â difa'. Ond mae'n orymdrechgar ac nid yw pob delwedd yn taro deuddeg e.e. 'gwythiennau sydd wedi'u creithio'n ddwfn'. Mae angen bod yn ofalus gyda mynegiant hefyd e.e. 'Cân y llif yw ffynhonnell bywyd y byd natur'. Mae

angen mwy o gynildeb. Tybiaf y byddai'r bardd ar ei ennill petai wedi canu i afon benodol y mae'n gyfarwydd â hi yn hytrach na cheisio athronyddu am afon amhenodol.

Er gwybodaeth, dyma'r feirniadaeth a gyflwynwyd ar gyfer y 'Cyfansoddiadau'

Siomedig oedd safon y cerddi yn y gystadleuaeth hon eleni.

Roedd llawer iawn o'r cerddi'n ymwneud â'r haniaethol a'r cyffredinol. Gwelwyd tuedd hefyd i athronyddu a phregethu yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Yn aml, gwell yw dangos na dweud. At ei gilydd, roedd y rhai a ganodd i afon benodol neu i sefyllfa benodol (yn hytrach na thaith bywyd dyweder) yn fwy llwyddiannus.

Yn flynyddol bron, mae beirniaid yn cyfeirio at ysgrifennu rhyddieithol fel un o brif wendidau'r ymgeiswyr ac nid yw eleni, yn anffodus, yn wahanol. Mae angen i'r llinellau lifo a rhaid talu sylw i rythmau llinellau. Hefyd, mae angen meddwl yn ofalus wrth ddethol geirfa. Dro ar ôl tro, roedd yr ymgeiswyr yn pentyrru ansoddeiriau a geiriau amlsillafog, dieithr er mwyn 'effaith' gan gredu, am wn i, bod angen rhain mewn 'barddoniaeth'. Anelwch at eirfa a rhythmau naturiol y Gymraeg a chadw pethau'n syml.

Ac wrth gwrs, mae angen sylw ar ansawdd yr iaith cyn cyflwyno cerdd i gystadleuaeth fel hon. Mae angen osgoi atalnodi a sillafu esgeulus, cystrawennau lletchwith a defnydd anghyson (ac anghywir) o ferfau.

Do, fe gafwyd ambell gyffyrddiad hyfryd ac ambell fflach o awen. Ymysg y goreuon yr oedd 'Blodyn yr haul' a 'Penfelen 2'. Ond ni chafwyd cerdd orffenedig, gyson ei hawen. Yn anffodus felly, o wybod am y safon sy'n ddisgwyliedig mewn cystadleuaeth genedlaethol fel hon a'r craffu gofalus sydd ar y cerddi buddugol, nid yw fy nghydwylod yn caniatáu i mi ddyfarnu'r wobr gyntaf i un o'r 14 ymgais. Rwy'n annog y beirdd i barhau i fireinio'u crefft.

1. Neb yn deilwng
2. Neb yn deilwng
3. Penfelen 2